**Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol**

**12 Tachwedd 2025**

Yn Bresennol
Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd), y Cynghorydd C George, Ms H Gwenllian, Dr M Havard, Mr J Hogg, y Cynghorydd M James a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd B Price cyn ystyried eitem 5.

Swyddogion yn bresennol
Ceri Kwiechinski, Astari (Archwilio Mewnol – eitemau 10 - 12), Prif Weithredwr, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Pennaeth Datgarboneiddio, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.20am; 11.30am – 12.45pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd V Thomas.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements a eiliwyd gan y Cynghorydd George, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2025.

**4. Log Gweithredu**
Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr hyfforddiant ar Ddiogelu, Haen 2, wedi'i drefnu i'w gynnal ar yr 8$^{fed}$ o Ionawr 2026; byddai cam gweithredu 1062 ar yr archwiliadau dwfn a gynhaliwyd yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod adeg ystyried y gofrestr risg.

O ran cam gweithredu 1086, absenoldeb oherwydd salwch, hysbyswyd y Pwyllgor bod y cyfraddau presennol yn cael eu hystyried yn isel ac nad oeddent yn destun pryder.

**Nodwyd** y diweddariad ar y camau oedd yn weddill yn y Log Gweithredu.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd B Price]

**5. Adroddiad ar y Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant – Cynnydd yn erbyn y Dangosyddion a'r Prosiectau Blaenoriaeth/ Y Camau Gweithredu ar y Meysydd Newid Corfforaethol/ Y Camau Gweithredu ar Welliannau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y Cyfnod yn dod i ben ar 30 Medi 2025**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth ddau adroddiad. Roedd y cyntaf yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27, gan amlinellu'r cynnydd yn erbyn y dangosyddion blaenoriaeth (gan gynnwys dangosyddion newydd Llywodraeth Cymru), y prosiectau a'r gweithgareddau a nodir yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod. Roedd hyn yn rhan o'r gwaith monitro ar reoli Risgiau 1-4 yng nghofrestr risg yr Awdurdod.

Roedd adroddiad perfformiad 2 yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn yr hyn y gellid ei gyflawni yn y maes newid corfforaethol o fewn y Cynllun Cyflawni, yn nodi'r perfformiad o ran yr elfennau llywodraethu yn adroddiadau Llywodraeth Cymru, y perfformiad ar yr hyn y gellid ei gyflawni o'r cynlluniau cyflawni, cynlluniau Llywodraeth Cymru, a'r camau gwella o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Roedd hyn yn rhan o'r gwaith monitro ar reoli'r Meysydd Risgiau 5, 6, 7, 9 ac 11 yng nghofrestr risg yr Awdurdod.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod problemau posibl wedi'u clustnodi ynghylch tan-adrodd mewn rhai meysydd, oedd yn derbyn sylw, ac mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y swyddog bod y tan-adrodd i'w briodoli i'r newidiadau mewn staff, a'r systemau lle'r oedd gwybodaeth yn cael ei storio.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar agweddau eraill o'r adroddiad gan gynnwys prosiectau ar addasu i'r newid hinsawdd, y Gymraeg, cadeiriau olwyn traeth, a throseddau treftadaeth, ac atebwyd y cwestiynau hyn gan y swyddogion. Nodwyd hefyd bod sawl gweithgaredd wedi cael eu heffeithio gan fod y swydd Pennaeth Twristiaeth Adfywiol yn wag, a dywedodd y Prif Weithredwr bod penodiad dros dro yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac y byddai blaenoriaethau'r swydd honno yn cael eu hailystyried.

**Nodwyd.**

6. **Log Gweithredu ar gyfer Archwiliad Perfformiad Allanol ac Archwiliad Mewnol (yn dod i ben 30 Medi 2025)**
Atgoffwyd yr Aelodau bod Log Gweithredu ar Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu, yn dilyn cais gan y Pwyllgor, i gynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r camau gweithredu, ac roedd yr adroddiad wedi'i ddiwygio ers y cyfarfod diwethaf mewn ymateb i sylwadau. Eglurwyd y byddai'r camau gweithredu hynny sy'n deillio o'r adroddiadau Archwilio Mewnol a gyflwynwyd y bore hwnnw yn cael eu hychwanegu at y Log Gweithredu yn dilyn y cyfarfod.

Nodwyd bod nifer o'r camau Archwilio allanol a mewnol wedi'u cwblhau, a rhoddwyd diweddariad ar y camau eraill o weithredu.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r adroddiad, a dywedwyd bod yr adroddiad yn ddefnyddiol i sicrhau bod y camau gweithredu a godir gan archwilwyr allanol a mewnol yn symud ymlaen i gael eu rhoi ar waith.

**Nodwyd.**

7. **Adroddiad Gwasanaethau Pobl**
Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar ran Pennaeth dros dro Gwasanaethau Pobl oedd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar iechyd a diogelwch, gan gynnwys damweiniau a digwyddiadau yn ail chwarter 2025, absenoldeb salwch staff, hyfforddiant a datblygiad, cyflogau a graddfeydd, cynllunio'r gweithlu, a gwirfoddoli.

Nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn digwyddiadau, fodd bynnag, cafodd hyn ei annog yn gadarnhaol gan fod dod yn ymwybodol o ddigwyddiadau yn gynnar wedi atal damweiniau yn y pen draw. Bu un digwyddiad RIDDOR (Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) a achoswyd gan ddefnydd amhriodol o sgwter symudedd gan aelod o'r cyhoedd, a bod hyn wedi'i ymchwilio, ac y byddai hyfforddiant ychwanegol i ddefnyddwyr yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol.

Holodd Aelod am y nifer o ddigwyddiadau syndrom dirgryniad llaw a braich a adroddwyd, ac atebodd y Prif Weithredwr bod peth pryder am hyn, o ganlyniad i drefniadau gwell o fonitro drwy ddefnyddio'r oriawr newydd. Eglurodd bod y digwyddiadau wedi'u hamlygu pan gyrhaeddwyd mwy na 100 pwynt, tra bod 150 pwynt yn drothwy ar gyfer pryder; roedd y dull adrodd yn cael ei adolygu i'r dyfodol. Awgrym Aelod oedd defnyddio'r dangosydd Coch Ambr Gwyrdd i dynnu sylw at ddifrifoldeb digwyddiadau ac unrhyw rai oedd yn destun pryder.

Cwestiynwyd y niferoedd brig mewn salwch staff fis Mehefin a mis Awst 2025, a gofynnwyd am gynnwys ffigurau’r blynyddoedd blaenorol mewn adroddiadau yn y dyfodol i allu cymharu. Hefyd nodwyd y gost o gyflogi staff rhan-amser, o ran offer a hyfforddiant, fodd bynnag, eglurodd y Prif Weithredwr bod nifer o’r swyddi rhan-amser yn swyddi staff tymhorol, a hefyd bod gweithio oriau hyblyg yn fanteisiol o ran recriwtio a chadw staff.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.20am a 11.30am.]

**8. Diweddariad Cyffredinol ar Ddatblygiad Aelodau**

Roedd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y gwaith oedd yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru o ran y trefniadau ar werthuso perfformiad Aelodau unigol ar draws yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, yr hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn, a phresenoldeb yr Aelodau.

O ran mynychu’r sesiynau hyfforddiant, roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol derbyn rhestr o'r hyfforddiant yr oeddent eisoes wedi'i wneud, neu efallai'n bwysicach fyth, yr hyfforddiant nad oeddent wedi'i wneud, i'w helpu i glustnodi unrhyw feysydd yr oedd angen iddynt dalu sylw iddynt.

**Nodwyd.**

**9. Adroddiad ar y Gyllideb 30 Medi 2025**

Roedd adroddiad y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian hefyd wedi’i gyflwyno gan y Prif Weithredwr, er iddo nodi bod yr adroddiad hefyd wedi cael ei ystyried mewn Gweithdy i bob Aelod ddiwedd mis Hydref.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gyllideb Refeniw, y Rhagolwg o’r gyllideb Refeniw yn 2025-26, trosolwg o'r rhaglen Gyfalaf, ac amlinelliad o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Nodwyd yn yr adroddiad bod sefyllfa refeniw net yr Awdurdod ar 30 Medi 2025 yn dangos gwarged net o £563k yn erbyn diffyg cyllideb disgwyliedig o £371k (£934k yn well na'r gyllideb) gyda'r amrywiadau allweddol wedi'u nodi. Rhagwelwyd ar y pryd, yn sgîl derbyn y cyllid refeniw ychwanegol o £1.4m gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn flaenorol, a gariwyd ymlaen fel Cronfa Wrth Gefn wedi’i Chlustnodi a'i defnyddio i gydbwyso'r gyllideb, na fyddai unrhyw ddiffyg ariannol yn y flwyddyn 25-26.

Roedd y rhaglen gyfalaf am y flwyddyn wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £1,675k i gyllideb ddiwygiedig o £1,979k. Roedd y cynnydd i’w

briodoli i’r ffaith bod Cam 2 o ailddatblygu Traeth Mawr Trefdraeth wedi’i gynnwys, a bod y gyllideb yn amlygu pris y tendr am Cam 1 a Cham 2. Byddai'r costau yn cael eu hariannu gan gyfuniad o gronfeydd SLSP a dyfarniad Y Pethau Pwysig.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael adroddiadau yn rheolaidd i’r swyddogion ac i’r Aelodau, a’r gobaith oedd bod y system gyllido newydd wedi helpu yn hyn o beth. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr bod staff wedi cael gwybod am y sefyllfa ariannu a bod sgyrsiau manwl wedi'u cynnal ar lefel Arweinydd Tîm. Credai bod angen newid yn y diwylliant o ran y dulliau o gynhyrchu incwm.

**Nodwyd**.

**10. Adroddiad ar y Camau Ymlaen o ran Archwilio Mewnol**

Roedd Ceri Kwiechinski o Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, Astari, wedi cyflwyno diweddariad ar y camau ymlaen tuag at gyflawni Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2025/26, yn ogystal â chrynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn. Nodwyd bod gwaith pellach wedi'i wneud ers ysgrifennu'r adroddiad ac y byddai'r adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor.

Hefyd roedd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeddfwriaeth a’r cyhoeddiadau perthnasol oedd yn cynnwys adroddiad blynyddol Risg mewn Ffocws Cydffederasiwn Ewropeaidd Sefydliadau Archwilio Mewnol. Roedd hyn yn cynnwys risg sy'n gysylltiedig â thechnoleg newydd a deallusrwydd artiffisial. Dywedodd y swyddogion bod gwaith yn y maes hwnnw yn datblygu ac y byddai canllawiau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn cael eu datblygu.

**Nodwyd.**

**11. Eithrio’r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Havard, **PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**12. Adroddiad Archwilio Mewnol ar Barhad ac Adfer TG ar ôl Trychineb**

Dywedwyd bod yr adroddiad hwn wedi dod i'r casgliad, o ystyried cwmpas yr adolygiad a'r materion a glustnodwyd, y gallai'r Aelodau gymryd sicrwydd sylweddol bod gan yr Awdurdod brosesau cadarn ar barhad ac adfer TG yn eu lle i ymateb i ddigwyddiad fyddai'n effeithio ar allu systemau TG allweddol yr Awdurdod i weithredu.

**Nodwyd.**

**13. Polisi Rheoli Risg – Cofrestr Risg a Datganiad Rheoli Risg**

Eglurodd y Prif Weithredwr, yn dilyn cytundeb ar fersiwn ddiwygiedig o'r dogfennau Rheoli Risg gan yr Awdurdod fis Mehefin, bod fersiwn wedi'i diweddaru o'r Gofrestr Risg yn cael ei chyflwyno ger eu bron. Hefyd cyflwynwyd dogfen ychwanegol yn rhoi ail linell o sicrwydd, yn unol ag argymhelliad yr Archwilwyr Mewnol. Ers y cyfarfod diwethaf, roedd rhai camau gweithredu wedi'u diweddaru a newidiadau eraill wedi'u gwneud, a rhoddwyd amlinelliad o'r rhai hyn.

Rhoddwyd diweddariad hefyd ynghylch y camau gweithredu y cytunwyd arnynt o archwiliad mewnol blaenorol ar seiberddiogelwch.

**Nodwyd.**

**14. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**Penderfynwyd** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2026 heb eu diwygio. |